# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bangor




# Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **12** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Bangor.

DRAFT

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr o Dalgylch Bangor yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Y gymuned a'r bobl | 5 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 5 |
| Dinas ddiwylliannol ac amrywiol | 4 |
| Y Brifysgol | 4 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 3 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 3 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 2 |
| Adnoddau iechyd – Canolfan iechyd ac Ysbyty | 2 |
| Digwyddiadau celfyddydol | 2 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 1 |
| Economi nos fywiog | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus da | 1 |
| Gwelliannau sy'n digwydd drwy'r Ardal Gwella Busnes | 1 |
| Ardal ddiogel a saff | 1 |
| 'Defibrillators' wedi ei diogelu | 1 |
| Cyfleoedd a gweithgareddau i bobl ifanc | 1 |

DRAFT

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma’r prif bethau oedd ymatebwyr o Dalgylch Bangor yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Dirywiad y Stryd Fawr | 5 |
| Diffyg tai sy’n addas a fforddiadwy i bobl leol | 4 |
| Effaith tai myfyrwyr ar ardaloedd preswyl | 4 |
| Diffyg cyfathrebu a chyd-weithio rhwng sefydliadau a grwpiau | 4 |
| Economi leol a dim byd i ddenu pobl i’r ardal | 3 |
| Agweddau negyddol | 3 |
| Cyswllt Brifysgol gyda chymunedau lleol | 3 |
| Bangor wedi colli hunaniaeth a bwrlwm | 3 |
| Grwpiau angen cefnogaeth ariannol | 2 |
| Angen cymorth / cyllid i fod yn cynnal digwyddiadau / bwrlwm cymunedol | 1 |
| Dim digon yn cael ei wneud i uchafu potensial efo Storiel | 1 |
| Gormod o finiau sbwriel | 1 |
| Dim byd yn cael ei wneud fel rhan o’r BID | 1 |
| Angen i’r Ysbyty cymunedol gyfarch anghenion pobl hŷn | 1 |
| Dim digon yn defnyddio Parc Menai a Parch Bryn Cegin | 1 |
| Cyngor Gwynedd ddim yn cefnogi Ysbyty Gwynedd | 1 |
| Problemau yn ymwneud â ffyrdd a thraffig | 1 |
| Diffyg llwybrau cerdded diogel | 1 |
| Diffyg adnoddau ym Maesgeirchen | 1 |
| Cau clybiau ieuenctid yn gamgymeriad mawr | 1 |
| Arafwch gwireddu prosiectau | 1 |
| Dim digon o adloniant | 1 |
| Diffyg swyddi o safon | 1 |
| Safon unrhyw waith yn yr ardal o ganlyniad i is-gontractio gan y Cyngor | 1 |

DRAFT

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bangor am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Datblygu'r stryd fawr | 4 |
| Dim agweddau negyddol a magu balchder yn yr ardal | 3 |
| Gwneud mwy o'r llwybrau cerdded a beicio lleol | 3 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 3 |
| Prifysgol i ffurfio cysylltiadau cryfach efo'r gymuned | 3 |
| Cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd, Cynghorau Cymuned a grwpiau lleol | 3 |
| Rheolau cynllunio llym o ran datblygu adeiladau | 2 |
| Gwaith atal llifogydd yn Hirael | 2 |
| Datblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth | 2 |
| Ail agor y clybiau ieuenctid a gwasanaethau tebyg | 2 |
| Cefnogaeth gan Swyddogion y Cyngor i gynnal prosiectau adfywio | 1 |
| Mwy o ddigwyddiadau e.e. Ffair | 1 |
| Gwneud mwy o'r ardaloedd tu hwnt i ganol Bangor | 1 |
| Swyddfeydd Cyngor Gwynedd wedi lleoli ym Mangor | 1 |
| Cadw cymunedau yn lan a thaclus | 1 |
| Cryfhau Cyngor tref Bangor | 1 |
| Prosiectau treftadaeth leol | 1 |
| Ardal sy'n ateb gofynion pobl ifanc | 1 |
| Mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg | 1 |
| Datblygu Parc y Ddinas | 1 |
| "Park and ride" yn ardal yr Ysbyty | 1 |
| Man canolog i ddathlu cymunedau'r ardal mewn ffordd weledol | 1 |

DRAFT

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1 Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Dalgylch Bangor:**

- Cyngor Gwynedd
- Y Brifysgol
- Storiel
- Castell Penrhyn
- Menter Iaith Bangor
- Cwmni'r Fran Wen
- Ysbyty Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Partneriaeth Bangor
- Grwpiau a Busnesau lleol
- Maes Ni
- Ysgolion yr ardal
- Cyngor Dinas
- Cynghorau Cymuned
- Pontio
- Cymdeithasau Tai e.e ADRA
- Grŵp Maestryfan
- Partneriaeth BID Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Coleg Menai
- Bangor First
- Wild Elements
- Y gadeirlan
- Archfarchnadoedd y ddinas

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

- Prif Gynllun Dinas Bangor wedi ei gyhoeddi Awst 2020

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Dalgylch Bangor:**

- Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill a llawer o drafodaeth e.e. Dinas dysg, ond mae pobl yn teimlo'n rhwystredig ac mae angen gweld y pethau bychan yn digwydd sydd mor bwysig i falchder y gymuned.

DRAFT